Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

ies

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: 31 Awst 2006 (gwaharddwyd tan 00:01 ar 31 Awst 2006)

Teitl: Mae'r Dyfodol yn Ddisglair i Raddedigion o Gymru

Mae astudiaeth bwysig newydd wedi datgelu bod graddedigion yng Nghymru yn ennill 46% yn fwy na'r rheiny sydd wedi cymhwyso i safon A – a bod y rhan fwyaf ohonynt yn gweithio mewn swyddi i raddedigion.

Datgelodd yr adroddiad, gan y sefydliad astudiaethau cyflogaeth, Institute for Employment Studies (IES), bod y galw am raddedigion yn uchel, gyda chyfraddau cyflogaeth i raddedigion ychydig yn uwch yng Nghymru nag yng ngweddill y DU (89.6 % o'i gymharu ag 89.1% ar gyfer y DU gyfan).

Edrychodd *Welsh Graduates and their Jobs: Employment and Employability in Wales* ar brofiad a pherfformiad graddedigion yng Nghymru yn y farchnad lafur. Er gwaethaf pryderon mewn rhai meysydd y byddai ehangiad addysg uwch (AU) yn arwain at orgyflenwad, dangosodd bod graddedigion o hyd yn cael enillion cadarnhaol ar eu graddau – yn enwedig y rheiny â chymwysterau ôl-raddedig.

Dywedodd Claire Tyers, awdur yr adroddiad a Chymrawd Ymchwil yn yr Institute for Employment Studies:

"Erbyn hyn mae gennym dystiolaeth gadarn am farchnad lafur i raddedigion a'i hynofedd. Mae gwerth gradd yn parhau'n uchel ac mae nifer cynyddol y graddedigion wedi'u hamsugno gan gynnydd yn y galw am raddedigion."

Rhwng 2003 a 2005, cyflog cyfartalog person graddedig oedd £27,900, o'i gymharu â £19,200 ar gyfer y rheiny â chymwysterau safon A neu gyfwerth, neu £13,400 i'r rheiny â chymwysterau is.

Mae'r mwyafrif o raddedigion yng Nghymru o hyd yn mynd i swyddi 'i raddedigion', gyda mwy na phedwar o bob pum person graddedig yn gweithio mewn swyddi lefel graddedig fel rheolwyr neu uwch swyddogion mewn galwedigaethau proffesiynol.

Ar lefel israddedig, dangosodd yr adroddiad bod Cymru yn rhanbarth medrus iawn gyda chyfran uwch o raddedigion wedi cymhwyso i lefel ôl-raddedig nag yng ngweddill y DU. Roedd lefel y mudo gan raddedigion i Lundain a De-Ddwyrain Lloegr yn adlewyrchu'r patrwm ym mwyafrif rhanbarthau eraill y DU.

Wrth groeso cyhoeddi'r adroddiad, dywedodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau:

"Mae'r adroddiad hwn yn tanlinellu pwysigrwydd buddsoddiad Llywodraeth y Cynulliad mewn AU yng Nghymru, ac mae hefyd yn neges gref i bobl sy'n ystyried mynd i addysg uwch ei fod yn parhau yn ddewis gwerth chweil a gwerthfawr."

Mae Cymru hefyd ar y blaen o ran mentrau cyflogadwyedd yn y DU, gyda chynlluniau fel GO Wales sydd wedi cryfhau'r cysylltiadau rhwng cyflogwyr a phrifysgolion trwy gefnogi lleoliadau gwaith.

Dywedodd yr Athro Phil Gummett, Prif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru:

"Mae'n debygol y bydd yn rhaid i gyfran y graddedigion yn y gweithlu barhau i gynyddu wrth i gyfran y swyddi sy'n galw am sgiliau a chymwysterau lefel uwch gynyddu.

"Wrth gwrs, mae heriau o'n blaenau o hyd os ydym am gyflawni ein gweledigaeth o Gymru sy'n dod yn 'economi gwybodaeth'. Mae'r adroddiad yn dangos bod angen i ni gyd wneud mwy i sicrhau y gall cyflogwyr yng Nghymru fanteisio ar y ffrwd o bobl dalentog sy'n dod allan o sefydliadau addysg uwch."

Seiliwyd yr ymchwil ar gyfweliadau â 500 o gyflogwyr yng Nghymru, 23 o recriwtwyr graddedigion, a gwasanaethau gyrfaoedd Sefydliadau Addysg Uwch. Tynnodd hefyd ar ddata yr Arolwg o'r Llafurlu ac arolwg Cyrchfannau Myfyrwyr sydd wedi gadael Addysg Uwch.

Cyhoeddir ***Welsh Graduates and their Jobs: Employment and Employability in Wales*** gan CCAUC ac wedi'i ysgrifennu gan Claire Tyers, Helen Connor, Peter Bates ac Emma Pollard yn y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'r:
Institute for Employment Studies: Jenny Murray, Rheolaeth Gyfathrebiadau, 01727 733889, jenny@communicationsmanagement.co.uk
CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebiadau, 029 2068 2225, emma.raczka@hefcw.ac.uk

- Yn 2003/4, £16,700 oedd cyflog cyfartalog person graddedig ifanc yng Nghymru, o'i gymharu â £17,000 ar gyfer holl raddedigion y DU a oedd yn 25 oed neu'n iau. Er bod cyflogau graddedigion yng Nghymru, yn nodweddiadol, yn is na llawer o ranbarthau'r DU, mae hyn yn bennaf oherwydd cost byw is a chyflogau cymharol is yn gyffredinol.

- Mae'r mwyafrif o raddedigion yng Nghymru o hyd yn mynd i swyddi i raddedigion. Mae mwy na phedwar o bob pum person graddedig yng Nghymru yn gweithio mewn swyddi lefel graddedig, er enghraifft fel rheolwyr neu uwch swyddogion, mewn galwedigaethau proffesiynol neu mewn rolau proffesiynol cysylltiedig. Mae'r rhan fwyaf o raddedigion mewn galwedigaethau proffesiynol, ac mae'r rheiny â chanddynt raddau uwch hyd yn oed yn fwy tebygol o fod yn gweithio yn y rolau hyn.

- Mae mentrau cyflogadwyedd a gwasanaethau gyrfaoedd cynhwysfawr o fewn SAUau yng Nghymru yn ennill tir yn effeithiol gyda chyflogwyr. Mae profiad gwaith a lleoliadau gwaith yn allweddol yng nghyflogadwyedd graddedigion yng Nghymru. Yn ogystal â gweithio gydag adrannau unigol prifysgolion i gynnig cyngor teilwredig i fyfyrwyr, mae gwasanaethau gyrfaoedd hefyd yn cynnig

cefnogaeth a gwasanaethau i gyflogwyr yn ystod ffeiriau cyflogwyr, ymdrin â swyddi gwag ac yn cefnogi rhai sefydliadau i gynnwys cyflogwyr wrth gynllunio cyrsiau.

- Mae graddedigion yng Nghymru yn fwy tebygol o weithio yn y sector cyhoeddus na'u cyfoedion yng ngweddill y DU, ac mae llai o gyflogwyr mawr i raddedigion yn y sector preifat. Mae llawer o gyfleoedd anghyffwrdd i raddedigion gymryd cyflogaeth fedrus mewn mentrau bach a chanolig (MBCh), ond mae datblygiadau gyda chyflogwyr llai yn y sector preifat heb eu gwneud hyd yn hyn.

- Mae Cymru yn apelio i raddedigion oherwydd nifer o ffactorau cydbwysedd bywyd-gwaith, ac efallai oherwydd hyn mae'n apelio i ferched sy'n fwy tebygol o aros yng Nghymru neu o ddod i Gymru yn y cyfnod cychwynnol ar ôl iddynt raddio na graddedigion gwrywaidd.

- Mae merched yng Nghymru â chanddynt radd yn ennill mwy na dwywaith cymaint â'r rheiny heb unrhyw gymwysterau, tra bod graddedigion gwrywaidd â chanddynt radd gyntaf yn ennill 97% yn fwy na'r rheiny heb unrhyw gymwysterau.

- Mae'r ymchwil hefyd yn dangos bod diffyg ymwybyddiaeth ymysg israddedigion o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt o fewn economi Cymru. Mae hyn yn beryglus: os nad yw graddedigion yn ymwybodol o gyfleoedd, efallai na fydd gweithwyr posibl yn chwilio am waith yng Nghymru.

- Mae'r Institute for Employment Studies yn gweithio ym meysydd polisi cyflogaeth cyhoeddus ac ymarfer AD. Mae'n cynnal ymchwil ac ymgynghoriad ar gyfer ystod eang o sefydliadau yn y DU ac yn rhyngwladol ac ar gyfer cyrff polisi.

- **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Fe'i sefydlwyd ym mis Mai 1992 a daeth yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru ar 1 Ebrill 1993.

- O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan y Cynulliad i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch a chyrsiau addysg uwch penodedig a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach.
- O dan Ddeddf Addysg 1994, mae'r Cyngor yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

  Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae'r Cyngor yn cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.